***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 4

# GWEITHREDU CYNIGION I NEWID CATEGORI YSGOL

## RHAN 3

## TROSGLWYDDO TIR

*Newid o ysgol gymunedol i ysgol wirfoddol a gynorthwyir*

10 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol gymunedol yn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir, a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan na fydd yr ysgol yn aelod o'r grwp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto.

(2) Mae unrhyw dir ar wahân i gaeau chwarae a oedd yn cael ei ddal neu ei ddefnyddio, yn union cyn y dyddiad gweithredu, gan awdurdod lleol at ddibenion yr ysgol gymunedol, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i ymddiriedolwyr yr ysgol, ac i'w freinio ynddynt, i'w ddal ganddynt ar ymddiried at ddibenion yr ysgol.